

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

25 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022

Mae'r OS uchod yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â phlaladdwyr, ac yn benodol, deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynhyrchion diogelu planhigion a'r lefelau gweddillion uchaf sy'n ddiangen yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Effaith yr OS yw dirymu deddfwriaeth uniongyrchol ddiangen yr UE a ddargedwir sy'n rhan o'r drefn ar gyfer rheoleiddio cynnyrch amddiffyn planhigion ("PPP") a'r lefel gweddillion uchaf ("MRL"), fel y gall y trefniadau hyn barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r dirymiadau hyn yn ymdrin â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddaeth i rym tuag at ddiwedd y cyfnod gweithredu (nad oedd OSau cynharach Ymadael â'r UE yn ymdrin â nhw). Dônt i rym ym Mhrydain Fawr trwy ddarpariaethau trosiannol yn OSau cynharach Ymadael â'r UE a'r cofrestrau statudol cenedlaethol. O'r herwydd, nid oes angen mwyach y ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a gaiff ei dirymu.

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 18 Ionawr 2022 gyda dyddiad cychwyn o 4 Ebrill 2022.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio yng Nghymru, y tro hwn oherwydd aliniad polisiau y tair llywodraeth a manteision amlwg, o gofio'r pwnc, gwneud y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru, Lloegr a'r Alban o fewn un offeryn, rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau'r newidiadau angenrheidiol na chwaith y defnydd doethaf o adnoddau Llywodraeth Cymru o gofio'i blaenoriaethau eraill pwysig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr OS hwn mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn:

<https://senedd.cymru/media/we1n1qrh/ws-ld14873-w.pdf>

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith SeneddHinsawdd@senedd.cymru a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig SeneddEconomi@senedd.cymru er eu gwybodaeth.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change